# Strategaeth Rhianta Corfforaethol
## Amlasiantaeth Caerdydd
## 2021-2024





# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| **Rhianta Corfforaethol** | **4** |
| - Arwain a Dylanwadu | 4 |
| - Gwerthoedd ac Egwyddorion | 4 |
| **Caerdydd sy'n Dda i Blant** | **5** |
| - Hawliau Plant | 5 |
| **Cynhwysiant a Diogelu** | **6** |
| **Y Strategaeth Hon** | **8** |
| Cyd-destun Strategol a Deddfwriaethol | 8 |
| Cyd-destun Cenedlaethol a Lleol | 9 |
| Perfformiad Caerdydd | 10 |
| Negeseuon gan bobl ifanc | 11 |
| Ein haddewid i chi | 14 |
| Blaenoriaethau | 16 |
| Gwneud iddo ddigwydd: y Gofyn Mawr | 26 |
| Tynnu'r cyfan at ei gilydd – rôl y Pwyllgor | 30 |



# Rhagair

Ein plant sy'n derbyn gofal yw rhai o'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae'n hanfodol ein bod ni fel Rhieni Corfforaethol yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i sicrhau bod ein plant sy'n derbyn gofal a'r plant sy'n gadael gofal yn cael eu cefnogi er mwyn iddynt fod yn ddiogel, yn hapus a ffynnu.

Drwy ymgynghori â'n plant sy'n derbyn gofal a'r plant sy'n gadael gofal ledled y ddinas, mae'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol tair blynedd hon yn amlinellu ein hymrwymiadau, ein heriau a'r camau allweddol y byddwn yn eu cymryd i sicrhau bod ein plant yn cael y canlyniadau gorau posibl mewn bywyd.  Mae gan wasanaethau cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r gymuned ehangach eu rhan i'w chwarae. Drwy gydweithio gallwn gefnogi ein plant a'r rhai sy'n gadael gofal i fanteisio ar yr ystod o gyfleoedd y gall ein dinas wych eu cynnig i'w helpu i gyrraedd eu llawn botensial.



**Y Cynghorydd Sarah Merry**
*Dirprwy Arweinydd y Cyngor.*

*Cadeirydd Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol.*

*Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau.*



**Y Cynghorydd Graham Hinchey**
*Yr Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd*

# Rhianta Corfforaethol

Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn mynd i ofal y Cyngor, mae gweithwyr proffesiynol a sefydliadau yn ymgymryd â'r rôl o fod yn rhiant. Gelwir hyn yn Rianta Corfforaethol. Mae'r term yn disgrifio sut mae Cyngor Caerdydd a phartneriaid yn cyflawni eu cyfrifoldebau rhianta ar y cyd, drwy geisio canlyniadau cadarnhaol i blant sy'n derbyn gofal ac oedolion ifanc sy'n gadael gofal yn yr un modd ag y gwnawn ar gyfer ein plant ein hunain. O'r blynyddoedd cynnar hyd at fod yn oedolion, dylid cadw ein holl blant, pobl ifanc ac oedolion ifanc yn ddiogel, yn hapus a rhoi pob cyfle iddynt ffynnu.

## Arwain a Dylanwadu

Mae Rhianta Corfforaethol effeithiol nid yn unig yn gofyn am gydberchnogaeth ac arweinyddiaeth gref, ond dylanwad ar y lefel uchaf hefyd. Mae Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol Caerdydd yn dod â phartneriaeth strategol ynghyd i weithio gyda'r Cynghorwyr a etholwyd gan ddinasyddion Caerdydd i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.

## Gwerthoedd ac Egwyddorion

Mae'r Pwyllgor o'r farn mai dim ond drwy wrando ar blant a phobl ifanc i ddarganfod beth sy'n bwysig iddynt, a thrwy sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd, y gellir cyflawni'r canlyniadau cywir.

Mae'r Gwerthoedd a'r Egwyddorion hyn yn sail i'r strategaeth a gwaith y Pwyllgor:

### Gwerthoedd ac Egwyddorion y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol

Bydd y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol yn mynd ati i hyrwyddo a gweithredu cydgyfrifoldeb i sicrhau rhianta da i bob plentyn yng ngofal Cyngor Caerdydd. Cyflawnir hyn drwy raglen waith a dangosyddion perfformiad allweddol y Pwyllgor.

**Bydd llais y Plant sy'n Derbyn Gofal yn llywio agenda a blaenoriaethau'r Pwyllgor.**

**Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod ei agenda yn canolbwyntio ar yr hyn y mae Plant sy'n Derbyn Gofal yn eu nodi yn berthnasol i'w twf a'u datblygiad.**

Bydd y Pwyllgor yn monitro gwasanaethau a ddarperir ar draws pob sefydliad statudol a gwirfoddol yn y sector gwirfoddol.

Bydd Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd ac Addysg, yr asiantaethau statudol, yn dylanwadu ar ac yn rhannu cyfrifoldeb drwy wrando ar Blant sy'n Derbyn Gofal i ddarparu gwasanaethau perthnasol a deinamig.


Drwy gydol y ddogfen hon byddwn yn cyfeirio at blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal neu'n gadael gofal fel "ein plant a'n pobl ifanc". Mae hyn yn hanfodol i'n gweledigaeth.

# Caerdydd - Dinas Sy'n Dda i Blant

Fel prifddinas, uchelgais Caerdydd yw bod yn 'ddinas sy'n dda i blant' ac yn lle gwych i gael eich magu. Dinas gyda phlant a phobl ifanc wrth ei gwraidd, lle caiff hawliau plant a phobl ifanc eu parchu a lle rhoddir cyfle cyfartal mewn bywyd i bawb.

Caerdydd yw'r ddinas gyntaf yng Nghymru i gymryd rhan ym menter Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant UNICEF y DU.  Ers 2017 mae UNICEF wedi rhoi arweiniad a chefnogaeth i'r Cyngor, gan adeiladu ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel ei sylfaen.

Mae strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant Caerdydd 2018 yn amlinellu 5 nod allweddol y mae angen eu bodloni er mwyn i Gaerdydd fod yn lle gwych i gael eich magu ynddo. Mae'r nodau hyn yn cysylltu â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Strategaeth hon. Mae'r rhain yn cynnwys cael eich clywed,  cael eich magu mewn cartref diogel a chefnogol, cael addysg dda a bod ag iechyd corfforol ac emosiynol cadarnhaol.




## Hawliau Plant a Rhianta Corfforaethol

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi'r hawliau y mae'n rhaid eu gwireddu er mwyn i blant a phobl ifanc gyrraedd eu llawn botensial.

Mae'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol yn cydnabod y Confensiwn fel gweledigaeth ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd yn eu gofal. Maent yn cydnabod bod pob plentyn sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn unigolion ac yn aelodau o deulu a chymuned, gyda hawliau a chyfrifoldebau sy'n briodol i'w hoedran. Mae gan ein plant a'n pobl ifanc yr un hawliau dynol ag oedolion ond hefyd hawliau penodol sy'n cydnabod eu statws fel plant sy'n ddibynnol ar oedolion i'w cadw'n ddiogel.

Rydym wedi nodi yn y strategaeth hon sut y mae'r Pwyllgor a'i bartneriaid fel rhieni corfforaethol yn cydnabod urddas sylfaenol pob plentyn a pherson ifanc yn ein gofal a'r pwysigrwydd o sicrhau bod eu lles a'u cerrig milltir datblygiadol yn cael eu cefnogi. Hoffem egluro'r egwyddor mai ansawdd bywyd da yw hawl pob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal, yn hytrach na braint sy'n cael ei mwynhau gan rai.

Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, bydd angen i bartneriaid weithio gyda'i gilydd i wneud dinas lle caiff lleisiau, anghenion, blaenoriaethau a hawliau ein plant a phobl ifanc fod wrth galon polisïau, rhaglenni a phenderfyniadau cyhoeddus. Caiff hyn ei hwyluso drwy rôl y Pwyllgor.  Yn sylfaenol i'r dasg honno fydd cydnabod ac ymateb i'r canlynol:

- Mae plant a phobl ifanc yn unigolion.
- Mae plant yn dechrau bywyd fel bodau cwbl ddibynnol.
- Mae gweithredoedd, neu ddiffyg gweithredu, yr Awdurdod Lleol a sefydliadau partner yn effeithio ar blant y maent yn rhieni corfforaethol arnynt yn gryfach nag unrhyw grŵp arall mewn cymdeithas.
- Dylid clywed ac ystyried barn plant a phobl ifanc mewn perthynas â'r prosesau sy'n effeithio arnynt.
- Mae llawer o newidiadau mewn cymdeithas yn cael effaith anghymesur, sy'n aml yn negyddol, ar blant a phobl ifanc.
- Mae datblygiad iach plant a phobl ifanc yn hanfodol i les ein cymdeithas yn y dyfodol.

# Mae cynhwysiant a diogelu wrth wraidd pob blaenoriaeth

Mae diogelu a chynhwysiant yn hanfodol i Rianta Corfforaethol. Maent wrth wraidd ein haddewid i'n plant a'n pobl ifanc ac yn ganolog i bob blaenoriaeth yn ein strategaeth.

## Diogelu

Ein plant a'n pobl ifanc yw rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae'n gyfrifoldeb ar y cyd a dyletswydd gyfreithiol yr holl wasanaethau cyhoeddus i gydweithio.

Rhaid i awdurdodau lleol ddiogelu a hyrwyddo llesiant y plentyn y mae'n gofalu amdano (A.78 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) a dylai'r gwaith hwn o hybu llesiant barhau drwy gydol datblygiad person ifanc, sy'n cynnwys dod yn oedolyn.

Mewn rhai teuluoedd, bydd yr angen hwn yn cael ei nodi cyn geni, i eraill yn ystod plentyndod, neu wrth i berson ifanc ddod yn oedolyn. Gwyddom y gall cam-drin a niwed gael eu hachosi o'r tu mewn neu'r tu allan i'w teulu ac o amrywiaeth o gyd-destunau. Gwyddom, wrth i'n plant a'n pobl ifanc ddatblygu, tyfu ac aeddfedu, y bydd eu hymddygiad a'u hanghenion hefyd yn newid.

Gall trosglwyddo o fod yn berson ifanc i fod yn oedolyn fod yn gyfnod cythryblus a dryslyd. Mae'n bwysig bod asiantaethau'n gallu addasu dulliau gweithredu er mwyn paratoi pobl ifanc i ddod yn oedolion. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn Strategaeth y Glasoed sydd wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.

Gwyddom, wrth i bobl ifanc dyfu i fod yn oedolion, eu bod yn aeddfedu a bydd eu hymddygiad yn newid. Yr adborth gan bobl ifanc oedd y dylid caniatáu



iddynt wneud camgymeriadau ac na ddylai'r camgymeriadau hyn eu dilyn i'r dyfodol.

## Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

O'r bobl ifanc hynny sydd mewn cysylltiad â Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd, mae 49% ohonynt yn hysbys i'r Gwasanaethau Plant ac mae 14% yn Derbyn Gofal. Felly, mae'n bwysig ein bod yn gweithio'n agos gyda'n Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn cefnogi ein pobl ifanc fwyaf agored i niwed sy'n blant ar fin dod, neu sydd eisoes yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid.

Mae strategaeth datblygu'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid 2020 - 2022 yn nodi nifer o ffyrdd o gyflawni'r canlyniadau hyn ar gyfer rhai o'n pobl ifanc fwyaf agored i niwed ac yn rhannu themâu cyffredin â'r Strategaeth hon.

Enghreifftiau yw rhoi llais pobl ifanc wrth wraidd yr hyn a wnawn, gweithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid a meithrin gwydnwch person ifanc.



## Cynhwysiant

Mae gan bob un o'n plant eu hunaniaeth a'u ffactorau eu hunain sy'n eu gwneud yn unigolion unigryw. Mae rhai o'n plant a'n pobl ifanc yn fwy agored i niwed nag eraill ac mae angen cymorth ychwanegol arnynt i fod yn ddiogel a ffynnu. Efallai y bydd angen rhoi ystyriaeth ychwanegol i blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol, gan gynnwys y rhai sy'n anabl, ceiswyr lloches ar eu pen eu hunain, y rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, neu sydd â nodweddion gwarchodedig eraill. Ceir tystiolaeth eu bod yn fwy tebygol o dderbyn gofal, aros mewn gofal am fwy o amser a bod ganddynt risg uwch o gael eu rhoi mewn lleoliad amhriodol o gymharu â phlant eraill.

Rhaid i gyfleoedd, gwasanaethau a chynllunio gofal fod yn gynhwysol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Rhaid i'r nodau a'r dyheadau sydd gennym ar gyfer yr unigolion hyn, fel ar gyfer pob plentyn arall, gael eu teilwra drwy gynlluniau gofal unigol i gefnogi ein holl blant i gyrraedd eu llawn botensial.

Gwyddom y bydd angen gwasanaethau arbenigol ar rai unigolion a grwpiau. Am y rheswm hwn, yn ystod 2021 byddwn yn lansio ein strategaeth ar gyfer plant anabl.



# Y Strategaeth Hon

Mae'r Strategaeth hon yn pennu ymagwedd Caerdydd tuag at Rianta Corfforaethol (2020 - 2023). Mae'r broses o ddatblygu'r Strategaeth hon wedi bod yn broses gynhwysol dan arweiniad aelodau etholedig, gan gynnwys plant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol a gefnogwyd gan gynllun gweithredu.

## Y broses gydgynhyrchu

- Dros 20 o bobl ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal yng Nghaerdydd, yn byw mewn amrywiaeth o leoliadau gofal, rhwng 5 a 27 oed ac yn cynnwys plant ag anghenion ychwanegol, drwy weithdai bywyd go iawn a rhithwir.

- Roedd 255 (44%) o blant sy'n derbyn gofal yng Nghaerdydd wedi cymryd rhan yn arolwg Eich Bywyd, Eich Gofal 2018. Cynhaliwyd yr arolwg mewn partneriaeth â Coram Voice a Phrifysgol Bryste, a ariannwyd gan Ymddiriedolaeth Hadley/Comisiynydd Plant Cymru. Cyfeirir at y canfyddiadau yn erbyn pob blaenoriaeth.

- Cyfrannodd 70 o weithwyr proffesiynol o bob math o asiantaethau a sectorau.

- Ymgynghorwyd â thros 20 o ofalwyr a gofalwyr sy'n berthnasau mewn sesiwn adborth.

Bydd y gwaith a amlinellir yn y strategaeth yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol a gynghorir gan grŵp cyfeirio integredig o bobl ifanc a rhwydwaith o weithwyr proffesiynol amlasiantaethol. Bydd y strategaeth yn esblygu dros amser i ddiwallu anghenion sy'n newid.

Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau i'r Cyngor llawn a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gan gynnal deialog reolaidd rhwng pwyllgorau craffu perthnasol. Bydd hyn yn sicrhau'r lefel uchaf o oruchwyliaeth ddemocrataidd ac amlasiantaethol

## Sut y mae'n cyd-fynd â'r cyd-destun deddfwriaethol a strategol ehangach

Yr ysgogwyr allweddol yw (nid yw hyn yn hollgynhwysol):

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015
- Cynllun Llesiant Lleol Caerdydd
- Strategaeth Iechyd Meddwl ac Emosiynol y bartneriaeth ranbarthol
- Yr Adolygiad Cenedlaethol o Ofal i Blant yng Nghymru 2019, AGC
- Sicrhau Rhagoriaeth yn y Gwasanaethau i Blant a'r Strategaeth Datblygu Cyfiawnder Ieuenctid: Ein Dyfodol Ni i Gyd 2020-22.



# Cyd-destun Cenedlaethol

Dechreuodd **2,125** o blant dderbyn gofal yn 2018-19

Gadawodd **1,678** o blant ofal yn ystod y flwyddyn 2018-19

Dychwelodd **47%** i fyw gyda rhieni neu deulu

Yng Nghymru roedd **6,846** o blant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2019

109 fesul 10,000 o'r boblogaeth dan 18 oed

Cynnydd o 439 (7%) ar y flwyddyn flaenorol

Cafodd **309** o blant eu mabwysiadu o ofal yn 2018-19

Cynnydd o 3 (1%) ar y flwyddyn flaenorol

Mae tua **700** o bobl ifanc dros 16 oed yn gadael gofal bob blwyddyn

Symudodd **27%** o'r rhai sy'n gadael gofal i drefniadau byw'n annibynnol yn ystod 2018-19

Roedd **12%** o'r rhai sy'n gadael gofal wedi profi digartrefedd yn 2018-19

Mae **49%** o blant sy'n derbyn gofal yn cael anhawster iechyd meddwl


Roedd **54%** o blant a adawodd ofal yn 2018/19 mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant flwyddyn ar ôl hynny

Mae gan **18%** o blant sy'n derbyn gofal anghenion addysgol arbennig

Enillodd **67%** o blant sy'n derbyn gofal y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn 2017/18

Enillodd **18%** o blant sy'n derbyn gofal y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 4 yn 2017/18

# Y Cyd-destun Lleol – Ein Plant





Mae **51** o blant ar Orchmynion Preswyl ac yn cael eu cefnogi gan yr Awdurdod Lleol


Mae **271** o blant ar Orchmynion Gwarchodaeth Arbennig


Cafodd **3.8%** o blant eu mabwysiadu o ofal yn 2019-20

Yng Nghaerdydd roedd **966** o blant yn derbyn gofal ar 30 Gorffennaf 2020.




Roedd **1046** o blant (52%) wedi aros gartref

Dechreuodd **255** o blant dderbyn gofal yn 2019-20.

Roedd **8%** wedi symud lleoliad 3 gwaith neu fwy

Roedd **7%** wedi dychwelyd adref

Gadawodd **203** o blant ofal yn ystod y flwyddyn 2019-20.

Roedd **94%** o'r rhai a adawodd gofal mewn llety addas ar adeg gadael gofal

Roedd gan **93%** o'r rhai a adawodd ofal gynghorydd personol yn 2019/20

Roedd **21%** o'r rhai sy'n gadael gofal wedi profi digartrefedd yn 2019-20

Roedd gan **87%** gynllun llwybr

Roedd **54.1%** o blant a adawodd ofal yn 2018/19 mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant flwyddyn ar ôl hynny.


Mae gan **62%** o blant sy'n derbyn gofal anghenion addysgol arbennig yng Nghyfnod Allweddol 4

Mae gan **76%** o blant oedran ysgol sy'n derbyn gofal Gynllun Addysg Personol

Roedd gan blant oedran ysgol gynradd sy'n derbyn gofal sgôr bresenoldeb o **94.76%** yn ysgolion Caerdydd

# Negeseuon gan ein plant a'n pobl ifanc

Daw'r negeseuon canlynol o ymgynghoriad â thros 20 o blant a phobl ifanc rhwng 5 a 27 oed o amrywiaeth o gefndiroedd. Mae Caerdydd yn awdurdod lleol Arwyddion Diogelwch. Strwythurwyd yr ymgynghoriad yn unol â'r model hwn gyda thŷ o bethau da, tŷ o bryderon a thŷ o obeithion a breuddwydion.




## Pethau da

Dywedodd ein plant a'n pobl ifanc wrthym eu bod yn mwynhau'r pethau arferol, syml mewn bywyd y mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc eu heisiau.

Daeth dwy thema arwyddocaol i'r amlwg:

- **Perthnasoedd**

Mae cael perthynas ddiogel ac ymddiriedus â gweithwyr proffesiynol yn hanfodol er mwyn gwybod sut y maent yn ffitio i mewn ac yn gweithredu o fewn 'y system'.

Mae perthynas gadarn gydag un arall (oedolyn proffesiynol neu bartner) yn hanfodol er mwyn iddynt wybod pwy ydynt a chael ymdeimlad o hunaniaeth a gwerth.

- **Addysg**

Maent yn ystyried yr ysgol a'r coleg yn rhywbeth cadarnhaol, ei fod yn rhoi opsiynau am obaith pellach a gyrfa. Ond yn bwysicach na hynny, mae'n fan lle gallant fod yn 'blant arferol yn eu harddegau', siarad am bethau y mae plant yn eu harddegau yn siarad amdanynt a gwneud pethau y mae plant yn eu harddegau yn eu gwneud, gan fynd i ddrygioni arferol. Ni waeth a yw'r ysgol yn brofiad da neu wael, bod y profiad yr un fath â'u cyfoedion.



# Gofidiau

Dywedodd ein plant a'n pobl ifanc wrthym eu bod yn teimlo'r un pwysau â'r rhan fwyaf o oedolion ifanc.

- Mae materion byd-eang a gwleidyddiaeth yn eu gadael yn teimlo'n ddi-glem.
- Maen nhw'n ofni peidio â chael eu clywed.
- Maen nhw'n teimlo dan straen.
- Maen nhw'n poeni am gael eu bwlio, cyfeillgarwch, peidio â gwneud ffrindiau a bod yn unig.
- Maen nhw'n poeni am Goleg, diffyg cymwysterau, dim cludiant a dim swydd.


Ond mae'r pryderon hyn yn cael eu chwyddo gan faterion penodol sy'n gysylltiedig â'u profiadau bywyd a bod yn bobl ifanc mewn gofal neu'n gadael gofal:

- Mae eu straen yn cynnwys gorbryder ychwanegol, dicter, trais, pryderon am gaethiwed neu ofn marw.

- Maen nhw'n poeni am allu gofalu amdanynt eu hunain. Am beidio â chael digon o arian na chartref / am dalu rhent.

- Maen nhw'n teimlo'n ynysig ac yn teimlo eu bod yn cael eu stigmateiddio am eu bod mewn gofal ac yn poeni am eu rhieni.

- Maen nhw'n poeni na fydd pobl eraill, fel eu gweithiwr cymdeithasol, yn eu deall, ac am ddiffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth am ofal maeth mewn cymdeithas




Daeth dwy thema arwyddocaol i'r amlwg:

- **Iechyd a Lles Emosiynol**

Roedd straen yn broblem fawr yn y sgyrsiau. Dywedon nhw wrthym ei fod yn brofiad amlhaenog. Mae'r straen hwnnw'n cael ei waethygu gan brofiadau y tu allan i'r arena arferol o ddydd i ddydd. Bod eu gallu i ddadlwytho, dadbacio a phrosesu'r materion hyn yn cael ei lesteirio drwy beidio â chael cymorth gan rieni.

Dyna pam ei bod mor bwysig cael o leiaf un berthynas ddibynadwy gadarn.

- **Stigma**

Roedd hyn yn sail i fwlio. Teimlant eu bod yn cael eu hystyried yn ddioddefwyr ac felly'n dueddol o fod yn dargedau hawdd o erledigaeth. Dywedon nhw wrthym eu bod wedi cael eu bwlio oherwydd canfyddir bod ganddynt rieni 'drwg' nad ydynt yn poeni amdanynt, nad oeddent yn cael eu caru ac felly bydd neb yn gallu eu caru. Roedd hyn yn gwneud iddynt deimlo'n ynysig ac yn unig.

# Breuddwydion

Dywedodd ein plant a'n pobl ifanc wrthym eu bod am gael diogelwch a rheolaeth i adeiladu dyfodol sefydlog:

- Teimlo'n ddiogel a bod rhywun yn gofalu amdanynt.
- Meithrin perthynas gadarn ag eraill. Dod o hyd i'w teulu, dod yn agosach atynt, neu fynd adref iddynt. Cael eu teulu eu hunain. Bod yn rhiant a bod yn rhiant da. Bod a chael ffrindiau da a theimlo'n gysylltiedig.
- Ennill graddau da i fynd ar gwrs coleg, fel y gallant gael swydd dda / gyrfa ddelfrydol, ennill arian a chael yr incwm i berchen ar gartref, cael car a bod yn annibynnol.




Daeth tri dyhead cadarn ar gyfer eu dyfodol i'r amlwg:

- **Maen nhw am berchen ar gartref**

Roedd hwn yn fater o bwys. Dywedon nhw wrthym eu bod am gael lle eu hunain. Maen nhw am gael rhywle y gallant wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â sut y mae'n edrych. Lle sy'n noddfa iddynt ac yn gyfforddus.

- **Maen nhw am gael teulu a hunaniaeth**

Dywedon nhw wrthym eu bod am gael teulu. Drwy gael eu haduno gyda'u teulu eu hunain, drwy newid eu henw yn ôl, neu fod eisiau dechrau eu teulu biolegol eu hunain, i fod yn rhieni eu hunain.

- **Maen nhw am gael eu gyrfa eu hunain**

Dywedon nhw wrthym eu bod am ennill annibyniaeth drwy ennill incwm da o swydd / gyrfa dda. Dyma eu tocyn i gael eu lle eu hunain ac ennill arian da i gael y pethau nad ydynt erioed wedi'u cael.



# Ein Haddewid i chi

**Byddwn yn**

- Darparu cartref diogel, sefydlog a chyfforddus i chi fel plentyn a'ch cefnogi pan fyddwch yn gadael gofal.
- Sicrhau bod yna bobl sy'n eich cefnogi ac yn gofalu amdanoch.
- Eich helpu chi i gael perthynas dda gyda'r bobl sy'n bwysig i chi.
- Eich helpu chi i gadw'n iach a chael lles emosiynol da.
- Darparu gweithgareddau a diddordebau rydych chi'n eu mwynhau.
- Darparu addysg o'r radd flaenaf a'r hyfforddiant cywir.
- Eich helpu chi i deimlo'n barod ar gyfer y dyfodol.
- Eich helpu chi i ddod o hyd i foddhad, pwrpas ac uchelgais.
- Gofyn i chi a gwrando arnoch yn enwedig pan caiff penderfyniadau eu gwneud.
- Gwella'r pethau nad ydyn ni'n eu gwneud yn dda.
- Dathlu eich cyflawniadau a'ch trin â'r urddas a'r parch yr ydych yn eu haeddu.

Er mwyn cyflawni ein haddewid yn llwyddiannus, byddwn yn canolbwyntio ein gweithgarwch ar y pum Blaenoriaeth ganlynol, a ddatblygwyd o'r negeseuon a ddywedodd ein plant a'n pobl ifanc wrthym.



# Blaenoriaeth 1:
## Gwella lles emosiynol ac iechyd corfforol

### Mae hyn yn bwysig oherwydd...
Mae gan ein plant a'n pobl ifanc yr un anghenion iechyd craidd â phob plentyn arall, ond mae eu cefndiroedd a'u profiadau yn golygu y gallant fod yn arbennig o agored i ganlyniadau iechyd gwaeth. Y rheswm am hyn yw y gallai fod gan blant sy'n mynd i mewn i'n gofal broblemau iechyd heb eu datrys neu gallent fod wedi profi tlodi, esgeulustod neu gamdriniaeth.

Rydym hefyd yn gwybod bod plant a phobl ifanc sydd wedi profi plentyndod amharedig, trawma a pherthynas anghyson â'u rhieni a'u teuluoedd yn fwy tebygol o gael trafferth gyda'u lles emosiynol. Gall pobl ifanc brofi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (PPNau). Mae'r rhain yn ddigwyddiadau sy'n peri straen yn ystod plentyndod megis dioddef esgeulustod a cham-drin, cael eu magu mewn aelwyd ag oedolion sy'n camddefnyddio sylweddau, cyflyrau iechyd meddwl neu drais domestig.

Gall y cyfnod pontio, y mae'r rhai sy'n gadael gofal yn ei brofi yn ystod ac ar ôl iddynt adael gofal, gyflwyno heriau penodol i'w lles emosiynol.

### Ffeithiau allweddol

Nododd arolwg Eich Bywyd, Eich Gofal (2018) o'n plant a'n pobl ifanc yng Nghaerdydd:

Fod gan **45%** o blant mewn gofal maeth i **75%** o'r rhai mewn gofal preswyl anawsterau iechyd meddwl.

Roedd **61%** o blant 8-11 oed a **71%** o bobl ifanc 11-18 oed yn poeni am eu teimladau neu eu hymddygiad. Roedd **18%** o bobl ifanc 11-18 oed yn meddwl nad oeddent yn cael cymorth gyda'r pryderon hyn.

Roedd **17 (13%)** o bobl ifanc 11-18 oed wedi'u nodi â lles isel. Roeddent yn fwy tebygol o fod yn ferched ac o gael perthynas wael â'u gweithiwr cymdeithasol a'u gofalwyr.

Cafodd **95%** o blant 8-11 oed gyfle i grwydro'r awyr agored. Roedd peidio â chael cyswllt â natur yn gysylltiedig â lles isel.

### Yr hyn a ddywedodd ein plant a'n pobl ifanc

*"Mae'n llawer o hwyl ac rydyn ni'n cael mynd i'r garafán"* (4-7oed)

*"Roeddwn i'n teimlo yn fy lleoliad maeth blaenorol y gallwn fod wedi cael gwell cefnogaeth emosiynol gan fod angen i mi fynychu'r llys fel dioddefwr"* (11-18oed)

*"Hoffwn gael anifail anwes oherwydd rwy'n credu y byddai hyn yn gwella fy lles meddyliol, ci os oes modd"* (11-18oed)

*"Rwy'n hoffi pan gaiff fy llais ei chlywed. Rwy'n teimlo bod angen i'r gweithiwr cymdeithasol wrando mwy arnaf a chofio mai fy mywyd i ydyw, ac nid un Dad"* (8-11oed)

## Ein gweithgarwch presennol

Caiff iechyd ein plant ei oruchwylio gan Arweinydd Meddygol a Nyrs Ddynodedig i Blant sy'n Derbyn Gofal. Maen nhw'n sicrhau bod ein plant yn cael asesiad o'u hanghenion iechyd a'u cynllun gweithredu unigol.

Rhaid i'n holl blant gael eu cofrestru gyda deintydd a meddyg teulu gan eu gofalwyr a chael cymorth i ddiwallu eu hanghenion iechyd. Mae pediatregwyr ar gael i'n plant os oes angen i sicrhau bod anghenion iechyd corfforol yn cael eu diwallu.

Mewn perthynas â lles emosiynol, darperir amrywiaeth o wasanaethau Seicoleg ac Iechyd Meddwl therapiwtig gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol gan gynnwys;

- Enfys (y Gwasanaeth Trawma Datblygiadol gynt)
- Gwasanaeth Cymorth Dwys i Blant ar gyfer plant anabl
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
- Cymorth therapiwtig drwy'r Panel Dyfodol Disgleiriach amlasiantaethol
- Y Prosiect Cydnerthedd sy'n gweithio'n bennaf drwy leoliadau addysgol
- Arbenigwyr Iechyd Meddwl Sylfaenol sy'n rhan o Wasanaeth Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg ac ysgolion wrthi'n mabwysiadu dull THRIVE.  Mae hwn yn ddull deinamig, datblygiadol ac yn ystyriol o drawma sy'n seiliedig ar theori ymlyniad a datblygiad plant. Mae gan bob ysgol aelod dynodedig o staff ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i rannu a siarad am unrhyw bryderon sydd ganddynt.  Mae llawer o'n hysgolion hefyd wedi dynodi mannau diogel i'n pobl ifanc rannu unrhyw bryderon yn breifat ac i gefnogi eu lles yn weithredol.

Mae eiriolaeth, cyfeillio, ymgynghoriadau a grwpiau cymorth penodol fel Bright Sparks a'r Grŵp Cynghori i Bobl Ifanc yn darparu cyfleoedd strwythuredig i'n pobl ifanc fynegi a rhannu eu teimladau a'u safbwyntiau. Mae hyn yn bwysig i gefnogi lles emosiynol ein plant a'n pobl ifanc.

---

## Sut y byddwn yn cyflawni ein nodau

Ategir y strategaeth hon gan gynllun gweithredu manwl sy'n gysylltiedig â phob blaenoriaeth.

**Y camau gweithredu allweddol yw:**

- Mae Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol yn un o flaenoriaethau cyflawni allweddol y Bartneriaeth Dechrau'n Dda drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch amlasiantaethol i gryfhau gwasanaethau cymdeithasol ac addysg gydgysylltiedig a arweinir yn therapiwtig.
- Deall, drwy wella systemau data yn ein plant, ein pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal, er mwyn cyflawni eu canlyniadau iechyd a lles. Bydd hyn yn nodi unrhyw fylchau ac yn gwella canlyniadau.
- Gwella'r ffordd rydym yn gwrando ar ein plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal ym mhob rhan o'n gwasanaethau i wella'r modd y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu
- Sicrhau gwelliant o ran prydlondeb a rhannu asesiadau iechyd sy'n ddyletswydd statudol ar gyfer ein holl blant a phobl ifanc.
- Sicrhau bod lles emosiynol a gwasanaethau therapiwtig yn diwallu angen a galw
- Gwella lles drwy gryfhau'r cynnig ar gyfer gweithgareddau chwarae yn yr awyr agored, chwaraeon, hamdden a diwylliannol drwy weithio gydag uwch arweinwyr yn y Cyngor, partneriaid a'r sector preifat.
- Sicrhau bod plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r dalgylch neu sy'n symud rhwng lleoliadau yn gallu parhau i ddefnyddio'r un gwasanaethau gyda cyn lleied o darfu â phosibl drwy'r Panel Dyfodol Disgleiriach amlasiantaethol
- Sicrhau bod y gwaith cofnodi profiadau bywyd yn cael ei gwblhau gyda'n plant a'n pobl ifanc
- Datblygu ffyrdd o gynyddu gwydnwch ein plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal

# Blaenoriaeth 2:
## Gwell cysylltiadau, gwell perthnasoedd

### Mae hyn yn bwysig oherwydd...
Gwyddom mai oedolyn dibynadwy yw'r prif ffactor wrth helpu plant i wella o ddigwyddiadau trawmatig. Rydym hefyd yn gwybod bod ein plant a'n pobl ifanc eisiau gwell cysylltiadau a gwell perthnasoedd yn eu bywydau.

Mae treulio amser gyda phobl sy'n bwysig i'n plant a'n pobl ifanc yn hawl ac angen sylfaenol. Weithiau nid yw cadw mewn cysylltiad â rhai pobl er budd pennaf plentyn. Gall hyn fod yn anoddach i'w gyflawni ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc sy'n symud o leoliad i leoliad, i'r rhai sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gaerdydd, neu wrth i bobl ifanc drosglwyddo i fyw'n annibynnol pan fyddant yn oedolion.

Rydym hefyd yn gwybod y gallai plant a phobl ifanc sydd wedi cael plentyndod amharedig, trawma a pherthnasoedd anghyson neu doredig ei chael hi'n anodd ffurfio atodiadau gyda phobl newydd o'u cwmpas.

### Dywedodd ein plant a phobl ifanc

*"Rydyn ni wrth ein bodd yn gweld Mam a'n chwaer fach ac rydyn ni eisiau eu gweld yn fwy"* (11-18oed)

*"Rydw i eisiau gweld fy mam yn llai"*

*"Ni ddylai gweithwyr cymdeithasol roi'r gorau i'r person ifanc a symud o un swydd i'r llall. Ddim yn hoffi gorfod cwrdd â phobl/gweithwyr newydd drwy'r amser"*

*"Hoffwn ddweud wrth blant eraill mewn gofal - peidiwch â bod ofn. Byddwch yn iawn. Os ydych chi'n cael trafferthion, bydd gennych rywun wrth eich ochr bob amser. Byddwch yn cael gweld eich teulu un diwrnod. Peidiwch â rhoi'r gorau i obeithio"* (11-18oed)

### Ffeithiau allweddol

Roedd **100%** o'r plant 4-7 oed, **95%** o'r plant 8-11 oed, a **90%** o'r bobl ifanc 11-18 oed yn meddwl bod eu gofalwyr yn sylwi ar sut roedden nhw'n teimlo.

Roedd lefel yr ymddiriedaeth mewn gweithwyr cymdeithasol yn uchel ymhlith y plant iau ond gostyngodd yn y grwpiau oedran hŷn. Nid oedd **22%** o blant 8-11 oed yn gwybod y gallent siarad â'u gweithiwr cymdeithasol ar eu pen eu hunain.

Nododd arolwg Eich Bywyd, Eich Gofal o'n plant a'n pobl ifanc y canlynol:

Nid oedd gan **19%** o blant 8-11 oed a **24%** o bobl ifanc 11-18 oed unrhyw gysylltiad wyneb yn wyneb â'r naill riant na'r llall. Roedd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc eisiau mwy o gyswllt ag aelodau o'r teulu a phobl sy'n bwysig iddyn nhw. Roedd rhai plant eisiau llai o gyswllt.

Roedd gan **98%** o blant 8-11 oedolyn dibynadwy, ond nid dyna'r achos ar gyfer **1 o bob 10** o bobl ifanc 11-18 oed. Roedd peidio â chael oedolyn dibynadwy yn gysylltiedig â lles isel.

Roedd **98%** o blant 4-7oed; **87%** o blant 8-11 oed; a **93%** o bobl ifanc 11-18 oed yn ymddiried yn eu gofalwyr. Roedd **61%** o bobl ifanc yn siarad yn rheolaidd â'u gofalwyr am bethau a oedd yn bwysig iddynt. Mae hynny'n gyfran debyg i'r **65%** o bobl ifanc yn y boblogaeth gyffredinol sy'n siarad â'u rhieni.

## Ein gweithgarwch presennol

Rydym yn ceisio cadw ein plant a'n pobl ifanc yn byw gyda theulu neu ffrindiau lle bynnag y bo modd. Rydym yn ymdrechu i gadw brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd, oni bai nad yw hynny er eu budd pennaf, tra'n aros am asesiad trylwyr.  Mae ymarferwyr yn cydnabod bod cysylltiadau'n eang. Mae ymdeimlad o berthyn yn deillio nid yn unig o deulu, ond hefyd o gymuned ac ymdeimlad o le a ffurfiwyd drwy gyfleoedd cymdeithasol, hamdden a diwylliannol.

Mae'r Gwasanaethau Plant yn gweithio gyda phlant a theuluoedd mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau, gan ddefnyddio fframwaith Arwyddion Diogelwch. Mae'r dull hwn yn cynnwys cyfarfodydd Rhwydwaith Teulu i nodi aelodau'r teulu a ffrindiau i ofalu am blant cyn ystyried gofal maeth neu breswyl.

Mae Caerdydd yn gweithredu'r Fframwaith Ailuno i gefnogi cynllunio sefydlogrwydd ar gyfer plant ac adeiladu ar ofal gan berthnasau.

Rydym yn sicrhau, lle bo hynny'n ddiogel, bod ein plant a'n pobl ifanc yn cadw mewn cysylltiad ac yn cysylltu â'r bobl sy'n bwysig iddynt yn rheolaidd.

Cefnogir cydberthnasau gan eiriolaeth, cyfeillio, modelau rôl cadarnhaol a chyfleoedd rhwydweithio. Rydym yn cydnabod bod gan blant yr hawl i fyw yng Nghaerdydd neu mor agos i'w cartref â phosibl, oni bai bod rhesymau diogelu pam na ellir annog hyn. Rydym yn gweithio i ddatblygu niferoedd uwch o leoliadau lleol (Blaenoriaeth 3).

Lle mae gan blant a phobl ifanc drawma datblygiadol neu anghenion therapiwtig, mae Enfys a'r Gwasanaeth Cymorth Dwys i Blant ar gyfer plant anabl yn cefnogi ac yn cryfhau'r berthynas â phobl allweddol (Blaenoriaeth 1).

---

## Sut y byddwn yn cyflawni ein nodau

Ategir y strategaeth hon gan gynllun gweithredu manwl sy'n gysylltiedig â phob blaenoriaeth.

**Y camau gweithredu allweddol yw:**

- Helpu ein plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal i ddatblygu rhwydweithiau cymorth gan gynnwys tra byddant mewn gofal, gadael gofal ac yn gadael i fod yn annibynnol
- Cefnogi mwy o blant a phobl ifanc i aros gartref a gwella'r cymorth sydd ar gael.
- Cefnogi mwy o aelodau o'r teulu i ddod yn ofalwyr sy'n berthnasau neu'n warcheidwaid arbennig a gwella'r cymorth sydd ar gael mewn dull person cysylltiedig yn gyntaf
- Cyflwyno'r Fframwaith Ailuno i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc sydd eisoes yn derbyn gofal i fyw'n ddiogel gydag aelod o'r teulu
- Parhau i wella recriwtio a chadw staff yn y Gwasanaethau Plant er mwyn galluogi ymarfer sy'n seiliedig ar berthynas
- Gwrando ar ein plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal i ddeall eu dymuniadau o ran cadw mewn cysylltiad â'r bobl a lleoedd sy'n bwysig iddyn nhw
- Mabwysiadu gwahanol ffyrdd o gynnal amser teuluol a chyswllt â phobl bwysig drwy ddulliau rhithwir, sy'n gweithio'n well i rai.
- Cysylltu'r bobl sy'n gadael gofal â'r Gwasanaethau Cymorth Cynnar os oes angen, i gael cyngor a chymorth rhianta cynnar wrth iddynt ddod yn rhieni eu hunain. Bydd hyn yn cefnogi glasbrint cadarnhaol o rianta ac yn atal y problemau rhyng-genedlaethol posibl

# Blaenoriaeth 3:

## Cartref cyfforddus, diogel a sefydlog tra'u bod mewn gofal ac ar ôl hynny

### Mae hyn yn bwysig oherwydd...

Mae angen cartref diogel, cyfforddus a sefydlog ar bob un o'n plant a'n pobl ifanc ac maen nhw'n ei haeddu. Gall y cartref fod gyda rhieni, gyda gofalwr sy'n berthnasau, gwarcheidwad arbennig, gofalwr maeth, mewn cartref plant, ysgol breswyl, mewn llety â chymorth neu'n annibynnol gyda chymorth yn ôl yr angen. Ond weithiau mae hefyd yn cynnwys llety diogel neu remand. Mae hyn yn cynnwys llety sefydlog fel oedolyn, gan gynnwys cyfleoedd i berchen ar dŷ.

Ni waeth ble mae plentyn yn byw, rhaid ei gefnogi i gyflawni canlyniadau cadarnhaol a chyrraedd ei lawn botensial. Rhaid dewis a pharu pob lleoliad i ddiwallu anghenion unigol ein plant a'r rhai sy'n gadael gofal.

I'r rhan fwyaf, gobeithiwn y bydd hwn yn brofiad cadarnhaol, diogel a chyfforddus, lle caiff cysylltiadau newydd eu ffurfio gyda gofalwyr sy'n meithrin. Ond rydym yn deall na fydd pob lleoliad yn mynd yn ôl y disgwyl, ac mae'n rhaid bod gan ein plant a'n pobl ifanc ddewis amgen cadarnhaol sydd wedi'i gynllunio'n dda os nad yw pethau'n mynd yn ôl y disgwyl.

### Ffeithiau allweddol

Nododd arolwg Eich Bywyd, Eich Gofal o'n plant a'n pobl ifanc y canlynol:

Dywedodd **87%** o'n plant a'n pobl ifanc eu bod yn teimlo'n ddiogel 'drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser' yn eu lleoliadau o gymharu â dim ond **75%** o blant (8-13 oed) yn y boblogaeth gyffredinol. Roedd **84%** o bobl ifanc 11-18 oed yn teimlo'n ddiogel lle roeddent yn byw.

Roedd **61%** o bobl ifanc 11-18 oed yn teimlo'n sefydlog lle roeddent yn byw. Dywedodd 7 o blant a phobl ifanc nad oeddent 'byth' yn teimlo'n sefydlog.

Roedd y mwyafrif helaeth o blant a phobl ifanc yn hoffi eu hystafelloedd gwely.

Ysgrifennodd **84%** o bobl ifanc 11-18 oed eu bod yn dysgu sgiliau annibyniaeth 'Drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser' neu 'Weithiau'. Roedd **16%** o'r farn bod hyn 'bron byth' neu 'byth' yn wir.

### Dywedodd ein plant a phobl ifanc

*"Roedd bod mewn gofal yn gwneud fy mywyd yn well drwy gael tŷ diogel ac ystafell wely"* (8-11oed)

*"Rwyf wrth fy modd yn byw mewn gofal oherwydd bod y bobl rwy'n byw gyda nhw yn neis iawn ac yn fy ngharu'n fawr iawn"* (8-11oed)

*"Gallai pethau fod yn decach. Weithiau ni allwn wneud dewisiadau ar ein pen ein hunain ac mae'n rhaid i ni gael cyfarfodydd cyn y gallwn wneud pethau fel mynd ar wyliau"* (8-11oed)

## Ein gweithgarwch presennol

Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaethau Plant yn ceisio newid cydbwysedd y gofal (blaenoriaeth 2) fel bod mwy o'n plant a'n pobl ifanc yn cael eu rhoi gyda theulu neu bobl y maent yn eu hadnabod.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i wella nifer ac ystod y lleoliadau yng Nghaerdydd, er mwyn lleihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r Sir. Cyflawnir hyn drwy weithredu Strategaeth Comisiynu Lleoliadau'r Gwasanaethau Plant: Y Cartref Cywir a'r Cymorth Cywir i'n Plant sy'n Derbyn Gofal 2019-2022.

Lle nad yw lleoliadau yn y sir yn bosibl, rhaid gwneud pob cais am leoliadau y tu allan i'r sir drwy'r Panel Dyfodol Disgleiriach amlasiantaethol sy'n ceisio sicrhau bod yr holl anghenion gofal, addysg ac iechyd yn cael eu diwallu.

Mae Cynllunio Llwybr yn mynd i'r afael ag anghenion newidiol ein plant a'n pobl ifanc i gynllunio newidiadau o ran ble maent yn byw a throsglwyddo allan o ofal neu i oedolaeth â chymorth ac annibyniaeth yn y pen draw.

Mae'r Porth i Bobl Ifanc i Lety a Chymorth yn dilyn model Llwybr Cadarnhaol i ddarparu cyngor gwybodaeth a chymorth, llety â chymorth a chymorth yn ôl yr angen gyda llwybrau cyson i lety sefydlog i oedolion.

Waeth beth fo'r lleoliad neu oedran y plentyn neu'r person ifanc, mae Swyddogion Adolygu Annibynnol, Ymwelwyr Annibynnol ac Eiriolwyr yn sicrhau bod llais ein plant a'n pobl ifanc yn cael ei glywed ac y gweithredir ar eu dymuniadau a'u hawliau.

---

## Sut y byddwn yn cyflawni ein nodau

Ategir y strategaeth hon gan gynllun gweithredu manwl sy'n gysylltiedig â phob blaenoriaeth.

**Y camau gweithredu allweddol yw:**

- Gweithredu Strategaeth Gomisiynu Caerdydd i gynyddu digonolrwydd lleoliadau gan gynnwys;
  - Cynyddu lleoliadau lleol ar gyfer plant lleol drwy gynyddu capasiti lleol megis lleoliadau mewnol, lleoliad brys Oakway i bobl ifanc a'r Ganolfan Asesu drwy ddull amlasiantaeth.
  - Parhau i weithio gydag Asiantaethau Maethu Annibynnol a darparwyr gofal i ddarparu digon o ddarpariaeth i ddiwallu angen
- Sicrhau bod cymorth priodol ar gyfer lleoliadau i atal methiant
- Parhau i ddarparu'r Porth i Bobl Ifanc a datblygu darpariaeth ychwanegol i sicrhau bod y galw'n cael ei fodloni
- Gwella ymhellach ein systemau data ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal er mwyn cyflawni canlyniadau cartref diogel a sefydlog a llesiant.
- Cryfhau systemau i gynllunio llety a phontio i bobl ifanc sy'n pontio i fyw'n annibynnol ac i fod yn oedolion.
- Datblygu'r Tîm Perthnasau ymhellach i gefnogi mwy o aelodau o'r teulu i ddod yn ofalwyr sy'n berthnasau neu'n warcheidwaid arbennig a gwella'r cymorth sydd ar gael.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth fel nad yw symud lleoliad yn cael effaith andwyol ar ganlyniadau addysg, hyfforddiant neu iechyd
- Archwilio sut y gall y cyngor a'i bartneriaid gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal i berchen ar eu cartrefi eu hunain fel cynlluniau rhanberchnogaeth
- Gwella diogelu cyd-destunol ar gyfer risgiau y tu allan i'r cartref drwy ddatblygu Strategaeth y Glasoed a Diogelu a gweithredu Strategaeth Ecsbloetiaeth y BDRh.
- Bydd Gwasanaethau Plant ynghyd ag ENFYS yn gweithio i sicrhau bod gofalwyr maeth mewnol a gofalwyr sy'n berthnasau yn cael eu hyfforddi mewn modelau gofalu PACE a Rhianta Therapiwtig.

# Blaenoriaeth 4:
## Cyflawniad Addysgol, Cyflogaeth a Hyfforddiant

**Mae hyn yn bwysig oherwydd...**
Mae 709 o blant sy'n derbyn gofal yn ein hysgolion yng Nghaerdydd. Mae 54% ohonynt o oedran ysgol gynradd ac mae 46% yn yr ysgol uwchradd.

Rydym am i'n plant a'r rhai sy'n gadael gofal gyflawni'r canlyniadau addysgol a chyflogaeth gorau posibl fel y gallant fyw bywydau bodlon a llwyddiannus. Dywedodd ein plant a'n pobl ifanc wrthym mai dyma yw eu dyhead. Ystyriwyd bod cael swydd dda gydag incwm da yn fodd i gael eu cartref, eu hincwm, eu boddhad eu hunain a chael y pethau nad ydynt erioed wedi'u cael.

Ond rydym hefyd yn gwybod, oherwydd yr amgylchiadau a arweiniodd ein plant a'n pobl ifanc i ofal, y bydd rhai'n teimlo eu bod wedi'u difreinio neu wedi'u hymddieithrio o'r ysgol. Bydd rhai wedi newid yr ysgol wrth fynd i leoliad neu newid lleoliad.

Mae'r amhariad hwn yn golygu y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai pobl ifanc i gyflawni neu efallai y byddant yn cyflawni eu cyflawniadau yn hwyrach nag eraill. Mae ymchwil yn awgrymu bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn fwy tebygol o fod â datganiad anghenion addysgol arbennig, gael eu gwahardd o'r ysgol, a gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau o gymharu â phlant yn y boblogaeth gyffredinol.

Mae'n bwysig sicrhau bod Addysg yn cael ei hystyried yn llawn pan fo angen newid lleoliad, er mwyn sicrhau cyn lleied o darfu ar berthnasoedd a dysgu â phosibl. Gall hyn fod yn arbennig o heriol pan fydd pobl ifanc yn cael eu lleoli y tu allan i Gaerdydd lle nad oes darpariaethau tebyg.

Rydym am ddarparu'r cyfleoedd gorau posibl i'n holl blant a phobl ifanc, lle mae gan bob un ohonynt yr hawl i gael addysg eang a chytbwys o safon, yn unol â'u hanghenion ac mewn ysgol brif ffrwd lle bo hynny'n bosibl.

### Ffeithiau allweddol

Nododd arolwg Eich Bywyd, Eich Gofal o'n plant a'n pobl ifanc y canlynol:

Roedd **75%** o'r grŵp 11-18 oed yn hoffi'r ysgol neu'r coleg 'llawer' neu 'ychydig'.

Teimlai **94%** o blant (8-11 oed) a phobl ifanc (11-18 oed) fod eu gofalwyr yn dangos diddordeb yn eu haddysg 'Y rhan fwyaf o'r amser' neu 'Weithiau'.

Ysgrifennodd **13%** nad oeddent 'bron byth' neu 'byth' yn cael rolau dibynadwy yn yr ysgol.

Roedd gan **87%** fynediad i'r rhyngrwyd gartref o gymharu â **98%** o aelwydydd â phlant a dau oedolyn yng Nghymru; a **90%** o rieni sengl yng Nghymru

**Dywedodd ein plant a phobl ifanc**

*"Byddai mwy o gyswllt â gweithiwr cymdeithasol wrth chwilio am swyddi ac ati yn gwneud gofal yn well"*
*(11-18oed)*

*"Mae hefyd yn fy ngwneud i'n drist nad oes gennyf unrhyw un y tu allan i'r system ofal i'm helpu gyda phroblemau ariannol (pe bai gennyf fi rai)"*

*"Rwy'n teimlo'n hynod falch ohonof fy hun ar hyn o bryd gyda phopeth rwyf wedi'i gyflawni"*
*(11-18oed)*

## Ein gweithgarwch presennol

Caiff addysg ein plant a'n pobl ifanc ei goruchwylio gan Arweinydd Cyflawni penodedig a Chydlynydd Derbyn Gofal mewn Addysg sy'n cysylltu'n strategol ac yn weithredol ag ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae gan bob un o'n plant a'n pobl ifanc Gynllun Addysg Personol (CAP) sy'n cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd. Mae'r wybodaeth a gedwir yn yr Ysgol Rithwir, sy'n cynnwys data cyrhaeddiad a chynnydd yr unigolyn, yn ein helpu i sicrhau'r ymyrraeth a'r ymateb cynharaf i unrhyw dangyflawni. Mae'r Partneriaid Gwella yn y Consortiwm yn ein helpu i fonitro cynnydd a chyflawniad Plant sy'n Derbyn Gofal a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn gan yr ysgol.

Caiff ymyriad o'r fath ei gynorthwyo gan Grant Datblygu Disgyblion, a ddefnyddir ar hyn o bryd i hyfforddi pob athro i ddiwallu anghenion plant mewn gofal. Mae fforymau athrawon dynodedig yn rhannu arfer dda ar draws ysgolion, ac mae hyfforddiant ar gael i bob partner gan gynnwys llywodraethwyr, timau arbenigol, gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr i sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd.

Mae timau addysg gan gynnwys athrawon arbenigol a seicolegwyr addysg wedi addo cefnogaeth benodol i'n plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc.

Mae'r broses cynllunio llwybr pan fydd person ifanc yn 16 oed yn sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn cael cymorth ymarferol ac ariannol wrth gymryd rhan mewn unrhyw addysg bellach neu uwch.

Mae'r prosiect Dyfodol Disglair fel rhan o'r Gwasanaeth Cynghori i Mewn i Waith yn cefnogi ein pobl ifanc drwy eu paratoi ar gyfer cyflogaeth neu wrth ddychwelyd i addysg. Mae pobl ifanc yn cael eu mentor eu hunain a chymorth cyflogaeth pwrpasol, gyda mynediad am ddim at hyfforddiant, cyllid a pharatoi ar gyfer cyfweliadau. Pan fyddant yn barod ac yn hyderus, byddant yn symud ymlaen i leoliad gwaith chwe mis.

Darperir profiad gwaith, rhaglenni hyfforddi a phrentisiaethau i blant sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael gofal gan neu drwy Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd y Cyngor, ond hefyd drwy Addewid Caerdydd. Mae'r Addewid yn bartneriaeth rhwng y Gwasanaeth Cynghori i Mewn i Waith, darparwyr addysg a chyflogwyr i sicrhau bod pob person ifanc yn y ddinas yn cael swydd sy'n eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial.

## Sut y byddwn yn cyflawni ein nodau

Ategir y strategaeth hon gan gynllun gweithredu manwl sy'n gysylltiedig â phob blaenoriaeth.

**Y camau gweithredu allweddol yw:**

- Sicrhau bod anghenion addysgol ein plant a'n pobl ifanc sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r ardal neu sy'n symud o un lleoliad i'r llall yn cael eu diwallu ac y tarfir arnynt cyn lleied â phosibl drwy'r Panel Dyfodol Disgleiriach amlasiantaeth
- Deall, drwy wella data, y ddarpariaeth sydd ar gael a chanlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i nodi unrhyw fylchau a gwella canlyniadau.
- Sicrhau bod gan ein plant i gyd fynediad at yr adnoddau TG sydd eu hangen arnynt ar gyfer addysg gartref a lleihau effaith Covid-19 arnynt.
- Trosglwyddo arfer gorau o ysgolion sy'n ardderchog o ran cefnogi a meithrin ein plant a'n pobl ifanc ledled y ddinas.
- Datblygu ymhellach fynediad at gyfleoedd cyflogaeth a phrofiad gwaith yn y Cyngor, gyda'i bartneriaid a'r sector preifat
- Cryfhau mynediad i gyfleoedd diwylliannol, cymdeithasol a hamdden yn y Cyngor, gyda phartneriaid a'r sector preifat i gefnogi anghenion addysg ehangach ein plant a'r rhai sy'n gadael gofal
- Gwrando ar ein plant a'n pobl ifanc a gweithio gyda nhw i weld beth fyddai'n gwneud gwahaniaeth iddynt gyda'r flaenoriaeth hon.

# Blaenoriaeth 5:
## Dathlu ein plant a'n pobl ifanc

### Mae hyn yn bwysig oherwydd...

Mae llawer o'n pobl ifanc wedi cael dechrau anodd mewn bywyd ac maent yn debygol o fod wedi wynebu rhwystrau. Mae'n hanfodol bod ein plant a'n pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu cyflawniadau'n cael eu dathlu. Mae'n bwysig eu bod yn cael eu trin â'r urddas a'r parch y maent yn eu haeddu a bod ein cyswllt â phlant a'r rhai sy'n gadael gofal yn atgyfnerthu hyn.

Dywedodd ein plant a'n pobl ifanc wrthym eu bod yn poeni na fydd pobl eraill yn eu deall. Nodwyd diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth am blant sy'n derbyn gofal mewn cymdeithas ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu stigmateiddio am eu bod mewn gofal. Disgrifiodd rhai eu bod yn cael eu bwlio o ganlyniad i fod mewn gofal.

Gwyddom fod pob un o'n plant sy'n derbyn gofal yn unigryw, gyda'u profiadau bywyd eu hunain. Mae'n bwysig eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu eu doniau a rhannu eu cryfderau. Mae hyn yn adeiladu gwydnwch ar gyfer y dyfodol. Fel Rhieni Corfforaethol mae'n rhaid i ni gefnogi plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i gyrraedd eu llawn botensial a hyrwyddo eu hawliau.

### Dywedodd ein plant a phobl ifanc

*"Dylai oedolion sy'n gwybod eich bod mewn gofal ei gadw iddynt hwy eu hunain"* (11-18oed)

*"Rwy'n teimlo'n hynod falch ohonof fy hun ar hyn o bryd gyda phopeth rwyf wedi'i gyflawni"* (11-18oed)

*"Nid yw fy ngofalwyr maeth ... yn ymddiried ynof a maen nhw'n meddwl fy mod yn dwyn ac yn dweud celwydd sy'n niweidiol i mi gan nad yw'n wir"* (11-18oed)

*"Na, does gen i ddim ffrind da iawn"*

### Ffeithiau allweddol

Nododd arolwg Eich Bywyd, Eich Gofal o'n plant a'n pobl ifanc y canlynol:

Roedd gan **98%** o'r plant 4-7 oed, a **98%** o'r plant 8-11 oed ffrind da iawn. Ysgrifennodd **11%** o bobl ifanc 11-18 oed nad oedd ganddynt ffrind da iawn, ac roedd teimlo wedi'u hynysu oddi wrth ffrindiau yn thema gref gan grwpiau ffocws.

Roedd **25%** o blant 8-11 oed sy'n derbyn gofal a **30%** o bobl ifanc 11-18 oed yn ofni mynd i'r ysgol oherwydd bwlio. Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud eu bod yn teimlo fel hyn.

Roedd pob plentyn 8-11 oed yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gyda hyn. Ond doedd hynny ddim yn wir am chwarter y bobl ifanc 11-18 oed.

Cofnododd **12%** o bobl ifanc fod oedolion yn gwneud pethau a oedd yn gwneud iddynt deimlo embaras ynglŷn â bod mewn gofal.

Ymatebodd **54%** o bobl ifanc 11-18 oed eu bod yn cael ail gyfle 'drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser'. Roedd 9% yn teimlo eu bod 'bron byth' neu 'byth' yn cael ail gyfle.

Roedd **39%** o bobl ifanc (11-18 oed) yn meddwl eu bod yn cael cyfleoedd 'drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser' i ddangos y gellid ymddiried ynddynt. Ysgrifennodd **4%** nad oeddent 'byth' yn cael y cyfle i ddangos y gellid ymddiried ynddynt.

# Ein gweithgarwch presennol

Ar hyn o bryd mae amrywiaeth o ymyriadau a chymorth ar gael i helpu i gefnogi ein pobl ifanc a'n teuluoedd i feithrin gwydnwch.

Mae Seremoni Wobrwyo Bright Sparks bob blwyddyn yn dathlu llwyddiant ein plant a'n pobl ifanc ar draws y ddinas. Mae'r digwyddiad hwn yn gyfle i gydnabod eu cyflawniadau. Nid yn unig y mae'n dathlu a rhoi cydnabyddiaeth i'n plant a'n pobl ifanc sy'n cymryd rhan, ond fel digwyddiad noddedig mae llwyddiannau ein plant a'n pobl ifanc yn cael eu hyrwyddo i fusnesau lleol.

Mae Addewid Caerdydd yn cynnig lleoliadau gwaith a chyfleoedd hyfforddi i'n pobl ifanc yn y byd gwaith. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd i'n plant a'n pobl ifanc ddal swyddi o ymddiriedaeth, i ennill gwybodaeth, sgiliau a hyder. Mae'r fenter nid yn unig yn helpu i oresgyn rhwystrau y mae ein pobl ifanc yn eu hwynebu wrth gael gafael ar swydd neu ei chynnal, ond mae hefyd yn rhoi cyfle i gyflogwyr a'u staff gyfarfod â'n pobl ifanc a chael hyfforddiant i ddeall eu hanghenion yn well.

Mae Ymgyrch Faethu Caerdydd a'r Ymgyrch Fabwysiadu Genedlaethol wrth geisio darpar ofalwyr maeth a mabwysiadol hefyd yn ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd pwysig ar gyfer y cyhoedd. Maent yn codi ymwybyddiaeth o'n plant a'n pobl ifanc i'r gymdeithas ehangach ac yn codi ymwybyddiaeth o faethu a mabwysiadu er mwyn cynyddu nifer y lleoliadau sydd ar gael.

Mae Prosiect Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ymuno â'r system cyfiawnder troseddol neu ddod yn ddioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r prosiect hwn yn herio stereoteipiau a chanfyddiadau o bobl ifanc. Mae'n defnyddio dull sy'n seiliedig ar hawliau plant i fynd i'r afael â throseddu ymysg pobl ifanc mewn/wedi bod mewn gofal.

Mae'r heddlu wedi ymrwymo i beidio â thrin ein plant fel troseddwyr pan fyddant yn ymddwyn mewn ffyrdd y mae llawer o blant yn ymddwyn gartref. Dylid caniatáu i blant wneud camgymeriadau a'u hatal rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.


---

# Sut y byddwn yn cyflawni ein nodau

Dylid nodi mai dyma'r flaenoriaethau mwyaf heriol, oherwydd mae angen iddi gyrraedd y tu hwnt i'n cylch dylanwad uniongyrchol. Mae'n flaenoriaeth ddatblygiadol. Mae'n sail i'n Gofyn Mawr i'n Dinas a'n Cymunedau. Mae aelodau'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol yn hyrwyddwyr ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Byddant yn hyrwyddo'r diddordebau a'r cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal wrth ymwneud â busnesau, y sector gwirfoddol a chymunedau. Bydd gweithwyr proffesiynol yn chwilio am gyfleoedd newydd yn ysbryd y strategaeth a'r cynllun gweithredu hwn sy'n esblygu dros amser. Ategir y strategaeth hon gan gynllun gweithredu manwl sy'n gysylltiedig â phob blaenoriaeth.

**Y camau gweithredu allweddol yw:**

- Gweithio gyda'n plant a'n pobl ifanc i ddatblygu eu fersiwn eu hunain o'r strategaeth hon a datblygu'r addewid ymhellach
- Cryfhau cyfranogiad ein plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal
- Datblygu cysylltiadau cryfach rhwng y PCRhC a'n plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal.
- Archwilio pwnc atal bwlio gydag ysgolion i benderfynu a oes cyfleoedd i gymhwyso'r gwersi a ddysgwyd yn ehangach.
- Datblygu rhwydwaith rhianta corfforaethol o randdeiliaid i hyrwyddo rhianta corfforaethol a bodloni nodau'r Strategaeth hon
- Cefnogi ein plant a'n pobl ifanc i ymgyrchu a dylanwadu ar waith mewn ffordd sy'n seiliedig ar hawliau.
- Monitro a gwneud cysylltiadau ag Addewid Caerdydd i hyrwyddo ein plant a'n pobl ifanc.
- Herio stereoteipiau negyddol ac addysgu eraill o ran realiti profiad gofal.
- Archwilio sut y gellir cyflawni dyheadau ein pobl ifanc drwy bolisi a mentrau ehangach y Cyngor gan gynnwys perchentyaeth a mynediad at wasanaethau.



# Gwneud iddo ddigwydd

Er mwyn sicrhau'r canlyniadau cywir, gwyddom fod angen i ni gyfleu ein neges, cael cyd-ddealltwriaeth a chyfeiriad cryf, sicrhau arweinyddiaeth glir ac effeithiol, ac adrodd ar ein blaenoriaethau i'r bobl iawn.

I wneud hyn rydym yn mynd i wneud tri gofyniad mawr.

- Y Gofyn Mawr ar bobl ifanc yr effeithir ar eu bywydau.
- Y Gofyn Mawr ar ein gweithwyr proffesiynol gwych.
- Y Gofyn Mawr ar ein Dinas a'n Cymunedau.

# Y Gofyn Mawr ar y plant a phobl ifanc yr effeithir ar eu bywydau

Rydym yn falch o bob un o'n plant a'n pobl ifanc ac rydym am i bopeth a wnawn gael ei yrru gan yr hyn sydd ei angen arnynt i fod yn hapus a byw bywyd sefydlog.

Er mwyn gwneud hynny, fel pob rhiant da mae angen i ni wybod bob amser beth maen nhw'n ei brofi, ei deimlo a'i feddwl. Rydym am iddynt gymryd rhan, dweud wrthym a ydym yn gwneud pethau'n iawn a'n helpu ni i ddod o hyd i'r ffordd gywir os na.

Mae'r Gofyn Mawr ar ein plant a'n pobl ifanc y mae gofal yn effeithio ar eu bywydau, yn amlinellu wyth maes allweddol lle byddwn yn gofyn i'n plant a'n pobl ifanc gymryd rhan ynddynt i wneud gwahaniaeth ar gyfer nawr a'r dyfodol, iddyn nhw eu hunain ac i eraill.

Cymerwch ran yn fforwm ieuenctid Bright Sparks ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, i wneud y canlynol:

- Penderfynwch sut mae'r fforwm yn cael ei redeg – e.e. digwyddiadau, gweithgareddau a lleoliad.
- Penderfynwch ar ffyrdd creadigol o benderfynu beth sy'n bwysig.
- Dewch i gyfarfodydd neu ddigwyddiadau ein Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol os dymunwch a dywedwch wrthym beth i wrando arno.
- Os nad ydych am wneud hynny, dywedwch wrthym drwy gyfrwng animeiddiadau, fideos, lluniau, neu ddull arall.
- Gwahoddwch ni i'r lleoedd sy'n bwysig i chi os ydych am i ni weld drosom ein hunain.
- Cysylltwch â chlybiau a chymunedau eraill gyda chymorth ein gweithwyr ieuenctid a'n heiriolwyr. Byddwch yn llais iddynt.
- Gwrandewch ar ein syniadau am yr hyn a allai fod o gymorth.
- Dywedwch wrthym os byddwn yn ei chael hi'n

Bydd gan weithwyr cymdeithasol Caerdydd, gofalwyr maeth, cartrefi plant, darparwyr eiriolaeth, timau ieuenctid a'r bobl ifanc eu hunain rôl allweddol o ran hyrwyddo a hysbysebu y gofyn mawr ar ein pobl ifanc yr effeithir ar eu bywydau.

# Y Gofyn Mawr ar ein gweithwyr proffesiynol gwych

Gwyddom fod ein plant a phobl ifanc o bwys i'n gweithwyr proffesiynol. Maen nhw eisiau gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd pob person ifanc.

Felly gofynnwyd i weithwyr proffesiynol beth sy'n bwysig iddynt o ran bod yn Rhiant Corfforaethol da. Dywedon nhw wrthym:

*Maen nhw'n credu'n sylfaenol mai cyfrifoldeb pawb yw Rhianta Corfforaethol.*

*Bod angen inni ddeall anghenion pobl ifanc, eirioli ar eu rhan, a chwilio am atebion drwy lygaid lles yn hytrach nag osgoi risg.*

*Bod angen i bob gweithiwr proffesiynol ddeall a phenderfynu sut y bydd ei sefydliad yn cyfrannu. Gyda'n gilydd dylem anelu at gyflawni'r gorau i'n pobl ifanc ym mhob agwedd ar eu bywydau.*

*Bod yn rhaid monitro cynnydd a bod rhaid cael atebolrwydd.*

Felly, mae'r Gofyn Mawr ar ein gweithwyr proffesiynol gwych yn amlinellu chwe maes allweddol lle byddwn yn gofyn i ofalwyr maeth, gweithwyr preswyl, gweithwyr cymdeithasol, athrawon, nyrsys, gweithwyr ieuenctid, therapyddion, darparwyr tai ac eraill wneud gwahaniaeth.

- Rydyn ni'n gwybod eich bod chi'n gweithio'n galed ac eisoes yn gwneud gwahaniaeth. Dewch i'n cyfarfodydd a dywedwch wrthym amdano.
- Gwrandewch gyda ni ar yr hyn y mae pobl ifanc yn ei ddweud wrthym.
- Anogwch blant a phobl ifanc i rannu eu barn gyda ni. Cymerwch ran a bod yn llais i bobl ifanc sydd wedi'u difreinio neu sydd heb hyder.
- Gweithiwch gyda ni i ddod o hyd i atebion creadigol newydd i gyflawni ein blaenoriaethau.
- Gwnewch addewid!
- Gallwch ei gynnwys yng nghynllun eich tîm neu wasanaeth.
- Helpwch ni i werthuso a yw'r newidiadau rydyn ni'n eu gwneud gyda'n gilydd yn gweithio.

## Bydd gan arweinwyr ac uwch reolwyr gwasanaethau'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a gwasanaethau dan gontract Caerdydd rôl allweddol o ran hyrwyddo a hysbysebu'r gofyn mawr ar weithwyr proffesiynol i'w gweithlu.

# Y Gofyn Mawr ar ein Dinas a'n Cymunedau

Rydym yn uchelgeisiol i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal ac rydym yn gwybod bod y Ddinas a'i chymunedau yn uchelgeisiol iddynt hefyd.

Mae'r Gofyn Mawr ar ein Dinas a'n Cymunedau yn amlinellu pedwar maes allweddol lle byddwn yn gofyn i fusnesau, y sector gwirfoddol a chymunedau wneud gwahaniaeth.

- Helpwch i ddathlu llwyddiannau plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal drwy noddi ein Gwobrau Bright Sparks neu gyfrannu gwobr.
- Rhowch fynediad i weithgareddau chwaraeon, cerddoriaeth, y celfyddydau, hamdden, diwylliannol neu ffydd eich sefydliad i blant mewn gofal, teuluoedd maeth a'r rhai sy'n gadael gofal am gost isel neu ddim cost.
- Dewch yn gyflogwr Sy'n Ystyriol o Faethu drwy hyrwyddo maethu yn y man gwaith neu hyrwyddo maethu yn eich lleoliad. Helpwch ni i roi gwybod i bawb pa mor bwysig yw bod ein cymunedau'n deall yn well bod Plant mewn Gofal o Bwys.
- Rhowch brofiad gwaith, rhaglenni hyfforddiant, prentisiaethau a mentora seiliedig ar waith i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal drwy raglen Dechrau Disglair

Bydd gan Gynghorwyr Sir Caerdydd, fel arweinwyr cymunedol etholedig, rôl allweddol o ran hyrwyddo a hysbysebu'r Gofyn Mawr ar ein Dinas a'n Cymunedau.



# Tynnu'r cyfan at ei gilydd - rôl y Pwyllgor

Mae ein strategaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd gennym yn awr o ganlyniad i gydweithio, wedi'i sbarduno gan aelodau etholedig sydd am wneud gwahaniaeth.

Gwyddom y gallwn wneud mwy i ddeall y materion. Rydyn ni'n gwybod bod yna atebion nad ydyn ni wedi dod o hyd iddyn nhw eto. Gwyddom fod mwy y gallwn ei wneud i weithio gyda'n gilydd.

Gwyddom hefyd, dros oes y Strategaeth, y bydd cyd-destun bywydau pobl ifanc yn newid. Gobeithiwn y byddant yn gwella wrth i ni weithredu ein cynlluniau, ond rydym hefyd yn rhagweld y bydd heriau newydd, yn enwedig yn deillio o effeithiau cymdeithasol ac economaidd eang pandemig Covid 19.

Am y rheswm hwnnw, credwn ei bod yn bwysig bod ein strategaeth yn ddogfen fyw sy'n cael ei monitro a'i datblygu'n barhaus, ein bod yn chwilio am weithgarwch newydd ac yn nodi camau gweithredu newydd wrth inni fwrw ymlaen.

Y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol yw ein cyfrwng ar gyfer hyn. Nid yn unig ar gyfer llywodraethu, ond hefyd ar gyfer ymgysylltu a datblygu.

Bydd y Pwyllgor yn dwyn ynghyd bob un o'r tri Gofyn Mawr:

- Bydd pobl ifanc yn hysbysu'r Pwyllgor.
- Bydd gweithwyr proffesiynol yn parhau i chwilio am atebion newydd drwy wrando a chydweithio.
- Bydd aelodau etholedig yn arwain cydlyniant, partneriaeth ac yn hyrwyddo achos ein plant a'n pobl ifanc y maent yn rhieni corfforaethol iddynt.

## Sut y byddwn yn gwneud hynny

Bydd y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol yn monitro'r gwaith o weithredu'r strategaeth.

Bydd y Pwyllgor yn cynllunio ei gyfarfodydd yn thematig yn unol â Blaenoriaethau'r strategaeth.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried adborth gan grwpiau ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a dulliau creadigol o gael adborth fel y gall wrando a gwella ei ddealltwriaeth o bob Blaenoriaeth yn fanylach fyth.

Bydd grwpiau amlasiantaeth yn gweithio ar gyflawni'r blaenoriaethau unigol.

Y Pwyllgor fydd y fforwm ar gyfer cydlyniant a phartneriaeth wrth geisio atebion.

Bydd y Pwyllgor yn adrodd ar ei gynnydd.

Yn olaf, mae'n bwysig pwysleisio, nid yw ein hegwyddorion a'n strategaeth rhianta corfforaethol yn bodoli mewn gwactod. Dylent lunio meddylfryd y diwylliant ym mhob sefydliad partner, yn y ffordd y mae pob un yn cyflawni ei holl swyddogaethau.